

POLISI DIOGELWCH GOSODIADAU SEFYDLOG TRYDANOL

Dyddiad Cychwyn: [06/2024]

Dyddiad Adolygu Nesaf: [11/2025]

Perchennog y Polisi: [Gwasanaethau Eiddo / Tîm Cydymffurfio]

Pwynt Cyswllt y Polisi: [Ian Roberts – Pennaeth Gwasanaethau Eiddo]

CYNNWYS

- 1. CWMPAS/PWRPAS**
- 2. MANYLION Y POLISI**
- 3. GWEITHDREFNAU**
- 4. CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU**
- 5. DIFFINIADAU**
- 6. DEDDFWRIAETH A CHANLLAW PERTHNASOL**
- 7. COFNOD O ADOLYGIADAU I'R BROSES HON**
- 8. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
- 9. DIOGELU DATA**
- 10. CWYNION**
- 11. ADOLYGU PENDERFYNIAD**

1.0 CWMPAS/PWRPAS

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Adra yn cyflawni ei rwymedigaethau fel landlord i sicrhau bod diogelwch gosodiadau trydanol sefydlog yn cael ei reoli'n ddigonol, a thrwy hynny sicrhau diogelwch deiliaid contract, prydleswyr ac eraill.
- 1.2 Fel landlord, mae gan Adra ddyletswydd gofal i sicrhau bod gosodiadau trydanol sefydlog yn cael eu gosod, eu cynnal a'u harchwilio'n gywir ar gyfnodau priodol i leihau'r risg o sioc drydanol, tân, difrod i eiddo, anaf neu farwolaeth.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â thrwsio, uwchraddio, profi ac archwilio pob gosodiad trydanol. Bydd yr holl atgyweiriadau, uwchraddiadau ac adnewyddiadau trydanol yn cael eu categorio i sicrhau bod y lefelau cywir o flaenoriaeth yn cael eu rhoi. Bydd Adra yn ystyried yn benodol unrhyw ofynion os yw deiliaid contract yn agored i niwed ac ystyried iechyd a diogelwch yn ystod y broses flaenoriaethu ar gyfer y gwaith hwn.
- 1.4 Mae gosodiad trydanol yn cynnwys yr holl weirio trydanol sefydlog, a'r offer sy'n cael ei gyflenwi o bwynt y mesurydd trydan a thu hwnt. Mae'n cynnwys y ceblau sydd fel arfer wedi'u cuddio yng ngwead yr adeilad (waliau, lloriau a nenfydau), ategolion (socedi, switshis a ffitiadau ysgafn), a'r uned ddefnyddwyr (blwch ffiwsiau) sy'n cynnwys yr holl ffiwsiau, torwyr cylchedau a dyfeisiau cerrynt gweddilliol (RCDs).
- 1.5 Mae enghreifftiau o osodiadau a systemau dan sylw yn cynnwys;
 - Gosodiadau trydanol domestig;
 - Gosodiadau cymunol y landlord;
 - Systemau golau argyfwng;
 - Gosodiadau larymau tân sefydlog;
 - Cyflenwadau systemau mynediad drws;
 - Systemau gwresogi trydanol (gan gynnwys systemau gwres darfudol a chynaliadwy h.y. pypiau gwres ffynhonnell aer)

2.0 MANYLION Y POLISI

- 2.1 Prif amcanion y polisi hwn yw:
 - Darparu llinellau cyfrifoldeb clir o fewn Adra am reoli gosodiadau trydanol sefydlog
 - Sicrhau fod bob eiddo domestig sy'n eiddo i Adra neu'n cael eu rheoli gan Adra yn dal Adroddiad Cyflwr Gosod Trydanol dilys (EICR) nad yw'n hŷn na 5 mlynedd o ddyddiad yr EICR blaenorol.

- Sicrhau bod Adra yn cyflawni rhaglen gynhwysfawr o brofion ac yn arolygu'r holl eiddo domestig ar gylchred 5 mlynedd barhaus
- Hyrwyddo arfer da pan fo hynny'n rhesymol ymarferol
- Sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei wneud o fewn ein hamserlenni penodol, fel bod cartrefi yn parhau i fod yn ddiogel a bod gosodiadau trydanol yn cael eu cynnal i safon uchel
- Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ar gyfer pob eiddo sydd o dan ein cyfrifoldeb ni fel landlord
- Sicrhau bod system fonitro yn cael ei gweithredu a'i chynnal
- Sicrhau cydymffurfiaid â'r holl ddeddfwriaeth, safonau a chodau ymarfer cymeradwy perthnasol
- Rhoi arweiniad clir i ddeiliaid contract ar eu rhwymedigaethau o ran diogelwch trydanol

3.0 GWEITHDREFNAU

GOSODIADAU TRYDANOL

3.1 Rheoliadau Adeiladu Rhan B a gofynion o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a rheoliadau cysylltiedig

- 3.1.1 Rhaid i'r holl waith trydanol mewn cartrefi yng Nghymru a Lloegr, os yw'r gwaith yn hysbysadwy neu beidio i gorff rheoli adeiladu (gweler isod), fodloni'r gofynion yn Nogfen Gymeradwy Rhan P o Reoliadau Adeiladu 2010.
- 3.1.2 O dan adran 91 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 rhaid i landlord sicrhau bod annedd yn ffit i fod yn gartref ar ddechrau, ac ar gyfer holl gyfnod contract meddiannaeth. Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 (Rheoliadau FFHH) yn amlinellu gofynion landlord o ran diogelwch trydanol annedd.
- 3.1.3 Mae gofynion Dogfen Gymeradwy Rhan P yn berthnasol i anheddau newydd ac i unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i osodiadau trydanol anheddau presennol, gan gynnwys ailweirio llawn neu rannol. Mae Dogfen Gymeradwy rhan B o Reoliadau Adeiladu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol *“Gwneir darpariaeth resymol wrth ddylunio a gosod gosodiadau trydanol er mwyn amddiffyn pobl sy'n gweithredu, cynnal neu newid y gosodiadau rhag tân neu anaf.”*

- 3.1.3 Pan fydd deiliaid contract yn gwneud addasiadau a gwelliannau i eiddo, sy'n cynnwys ychwanegiadau / addasiadau i'r trydan, dylent ofyn am ganiatâd gan Adra cyn i unrhyw waith gael ei wneud. Os yw'r gwaith yn cael ei gymeradwyo, mae deiliaid contract yn gyfrifol am sicrhau bod gwiriadau diogelwch priodol yn cael eu cynnal a bod Adra yn derbyn yr holl dystysgrifau perthnasol yn dilyn y gwaith / gosodiad fel y nodir yn y Cytundeb Tenantiaeth. Mae deiliaid contract hefyd yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau sy'n ymwneud â'r gwaith.
- 3.1.4 Bydd Adra yn sicrhau bod prosesau a rheolaethau cadarn ar waith i sicrhau bod yr holl waith trydanol yn cael ei hysbysu a'i gymeradwyo'n iawn o dan Ran P o Reoliadau Adeiladu 2010 lle bo angen.

3.2 Profi Gosodiadau Trydanol

- 3.2.1 Pwrpas profi, archwilio ac ardystio gosodiadau trydanol yw penderfynu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ac adrodd ar, unrhyw ffactorau sy'n amharu ar ddiogelwch gosodiad trydanol neu'n debygol o amharu arno.
- 3.2.2 O dan Reoliadau FFHH rhaid i Adra sicrhau bod adroddiad cyflwr trydanol dilys yn cael ei gwblhau (h.y. adroddiad yn nodi canlyniad archwiliad diogelwch trydanol sydd wedi'i wneud gan berson cymwysedig).
- 3.2.3 Mae adroddiad trydanol dilys yn ddilys tan naill ai
- diwedd y cyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn gyda'r diwrnod y mae'r archwiliad diogelwch trydanol yn cael ei wneud, neu
 - os yw'r adroddiad yn datgan y dylid cynnal yr archwiliad diogelwch nesaf mewn llai na 5 mlynedd, y diwrnod sydd wedi'i nodi ar yr adroddiad.
- 3.2.4 Rhaid i Adra sicrhau bod copi o'r adroddiad cyflwr trydanol yn cael ei gyflenwi i'r deiliad (deiliaid) contract o fewn 14 diwrnod ar y diwrnod y cafodd yr archwiliad ei gwblhau.
- 3.2.5 Lle mae Adra yn cwblhau gwaith ymchwiliol neu gywiro mewn perthynas â gosodiad gwasanaeth trydan yn codi o broblem a nodwyd yn ystod archwiliad diogelwch trydanol, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith gan unigolyn cymwysedig i'r deiliad (deiliaid) contract o fewn 14 diwrnod i'r gwaith gael ei wneud (os caiff ei wneud yn fewnol gan Adra), neu o fewn 14 diwrnod o'r gwaith yn cael ei wneud (os yw'n cael ei wneud yn fewnol gan Adra), neu o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr un fath lle mae gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr.

- 3.2.6 Lle mae manylion y deiliad contract wedi newid (naill ai oherwydd contract meddiannaeth newydd, neu drosglwyddo ayyb) rhaid darparu copi o'r adroddiad cyflwr trydanol, ar y cyd gydag unrhyw gadarnhad o waith wedi'i gwblhau ers yr archwiliad diogelwch trydanol, o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad meddiannaeth. Caiff hyn ei wneud fel arfer ar adeg llofnodi'r contract.
- 3.2.7 Pan fydd unrhyw annedd yn ffurfio rhan o adeilad (e.e. bloc o fflatiau), mae'r gofynion fel y nodir yn 3.2.4-3.2.6 uchod yr un fath ar gyfer unrhyw ardal gymunol; rhaid i Adra ddarparu copi o adroddiad cyflwr trydanol dilys ac (os yw'n gymwys) cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith o fewn 14 diwrnod ar ôl gwneud yr archwiliad/gwaith sy'n manteisio ar yr ardal gymunol. Ymhellach, gofynnir i Adra ddarparu copi o adroddiad cyflwr trydanol dilys ac (os yw'n gymwys) cadarnhad ysgrifenedig o waith o fewn 14 diwrnod o ddyddiad meddiannaeth deiliad contract.
- 3.2.6 Bydd Adra yn ceisio sicrhau bod gan bob gosodiad Dystysgrif EICR briodol, ynghyd ag amserlen arolygiadau a chanlyniadau profion. Bydd y dogfennau'n cael eu cadw yn gywir a chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Gwifrau cyfredol, BS 7671
- 3.2.7 Yn ogystal, bydd Adra yn sicrhau bod archwiliadau a phroffion gosodiadau trydanol yn cael eu cynnal cyn cychwyn unrhyw denantiaethau newydd (eiddo gwag), cydgyfnewidiadau a throsglwyddiadau.

3.3 Argymhellion EICR

- 3.3.1 Gall Adroddiad EICR wneud argymhellion, a fydd yn nodi unrhyw faterion diogelwch neu rannau o'r system nad ydynt yn bodloni'r safonau cyfredol. Bydd argymhellion o'r fath yn cael eu hadolygu gan unigolyn cymwys a bydd y gwaith adfer angenrheidiol yn cael ei flaenoriaethu yn unol â hynny. Nodir y categorïau canlynol yn yr adroddiad:
- 3.3.2 **Cod C1 (Perygl yn Bresennol):** Lle gwelir perygl gwirioneddol ac uniongyrchol sy'n peryglu diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gosodiad. **Rhaid gwneud gwaith ar unwaith i gael gwared â'r risg.**
- 3.3.3 **Cod C2 (Peryglus o bosib):** Diffyg a welwyd nad ystyrir ei fod yn beryglus adeg yr archwiliad ond byddai'n dod yn berygl gwirioneddol ac uniongyrchol pe bai nam neu ddigwyddiad rhagweladwy arall yn digwydd.

Bydd gwaith cywiro yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer cwblhau ar sail risg ac yn cael eu categorio fel Isel, Canolig neu Uchel gan unigolyn cymwys. Os oes angen gwaith trydanol mawr (fel ailweirio), yna gellir gwneud gwaith amgen (fel gosod amddiffyniad RCD) er mwyn lleihau risg neu mewn amgylchiadau lle na ellir cwblhau gwaith mawr o fewn yr amserlen.

3.3.4 **Cod C3 (Gwella yn cael ei Argymell):** Defnyddir i nodi, tra bod diffyg wedi'i nodi, nid yw'r diffyg yn cael ei ystyried fel ffynhonnell perygl uniongyrchol neu berygl posibl, byddai gwella yn cyfrannu at wella diogelwch y gosodiad trydanol

3.3.5 Bydd holl arsylwadau ac argymhellion C3 yn cael sylw pan ddaw eiddo yn Wag neu ei gynnwys fel rhan o Brosiect Buddsoddi Cyfalaf sy'n cynnwys gwaith gwella trydanol

3.3.6 **Cod F/ I Angen Ymchwiliad Pellach):** Lle nad yw'n bosib archwilio ategolion neu gylchedau trydanol neu pan gofnodir anghysondebau ar ddarlleniadau prawf, bydd angen gwneud gwaith ymchwilio pellach. Gwaith ymchwilio pellach i'w gwblhau cyn pen **30 diwrnod**.

3.3.7 Gwneir unrhyw waith sy'n ofynnol yn unol â phrosesau canlynol Adra;

- R a Mp55 - Proses Trwsio Ymatebol
- HSp84 - Diffygion wedi'u hadnabod o'r Broses Adroddiad Archwiliad Cyflwr Trydanol (EICR)
- Yn ogystal, unrhyw waith a amlygwyd i'r Tîm Asedau ac i'w gynnwys mewn contractau cyfredol, gan gynnwys unrhyw waith trydanol mawr yn unol â Map Proses Adrodd Cyflwr Trydanol HSp80.

3.4 **Adroddiadau Anfoddhaol Oherwydd Oedran a Chyflwr:** Os yw'r adroddiad yn cael ei ystyried yn 'Anfoddhaol' oherwydd oedran a chyflwr y gosodiad, yna bydd yr eiddo'n cael ei ailweirio.

3.4.1 Bydd y gosodiad yn cael sgôr risg gan berson cymwys a bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r gwaith trydanol sydd angen ei wneud. Bydd hyn yn seiliedig ar y risg a bennir.

3.5 **Adroddiadau Boddhaol mewn perthynas ag Oed a Chyflwr:** Os yw'r adroddiad yn rhoi tystysgrif 'Boddhaol' ond mae'r peiriannydd trydanol wedi nodi bod angen profi'r gosodiad yn amlach. Gall hyn fod oherwydd yr oedran gosod, y math o gebl neu ddeunydd y cebl. Yn y math hwn o senario, bydd yr eiddo yn cael ei ailweirio.

- 3.5.1 Gan ddefnyddio'r dull sgôr risg, bydd y gosodiad hwn yn cael ei gategoreiddio fel eiddo Risg Isel ac yn cael ei ychwanegu at y rhaglen ailweirio yn unol â hynny

3.6 Mynediad i Eiddo

- 3.6.1 Bydd Adra yn cyfathrebu â phob deiliad contract trwy rybudd ysgrifenedig ac yn trefnu apwyntiadau at ddibenion profi gosodiadau trydanol, ac atgyweiriadau pan fydd angen. Ategir y cyfathrebiad hwn gan nodyn atgoffa 24 awr cyn apwyntiadau sydd wedi'u trefnu.
- 3.6.2 Manylir ar y broses fynediad lawn ar fap proses HSp82 sy'n tynnu sylw at y broses i'w dilyn pan na chafwyd mynediad neu pan wrthodir mynediad.
- 3.6.3 Rydym yn cydnabod efallai bod materion sylfaenol sy'n cyfrannu at broblemau mynediad mewn rhai achosion. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â'r angen am gefnogaeth, materion iaith neu broblem rheoli tenantiaeth benodol. Yn yr amgylchiadau hyn, lle mae'n rhesymol ymarferol, byddwn yn ceisio goresgyn neu ddatrys achos y broblem a bod yn sensitif i'r mater cyn dwyn achos cyfreithiol.
- 3.6.4 Os yw EICR yn nodi bod angen gwaith trydanol mewn eiddo, rhaid cwblhau'r gwaith, ac ni chaniateir gwrthod y gwaith. Os yw deiliad contract yn gwrthod y gwaith / mynediad i'r eiddo, bydd y mater yn cael ei basio i Dîm Cyfreithiol Adra a fydd yn cymryd camau priodol yn erbyn y tenant er mwyn sicrhau y gellir ymgymryd â'r gwaith.

Mae Adra yn cydnabod y gall y rhan fwyaf o waith trydanol darfu a gall cynnal y gwaith hanfodol yma arwain at rai problemau i gwsmeriaid ag anghenion cefnogaeth ychwanegol. Mae ein Swyddogion Cyswllt a Therapydd Galwedigaethol ar gael i ymweld a chytuno ar unrhyw addasiadau a chymorth angenrheidiol y gall Adra ei gynnig.

4.0 CYFRIFOLDEBAU

4.1 Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu'r polisi hwn.

4.2 Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyda'r Polisi. I gyflawni hyn ac yn unol â'r Drefn Ddirprwyo, bydd y Bwrdd (neu un o'i bwyllgorau sydd wedi'i henwebu) yn cael gwybod am unrhyw newidiadau perthnasol o fewn y Polisi yn dilyn adolygiad a chraffu unrhyw adroddiadau perfformiad i sicrhau bod unrhyw broblemau risg sylweddol yn cael

eu gweithredu yn briodol.

4.3 Cyfarwyddwr Asedau a Datblygu

Mae'r Cyfarwyddwr Eiddo a Datblygu yn gyfrifol am sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gael er mwyn sicrhau gallu cwrdd ag amcanion y polisi hwn.

4.4 Rheolwr Cydymffurfio

Bydd y Rheolwr Cydymffurfio yn gyfrifol am y gweithdrefnau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb am fonitro, adolygu, datblygu polisi a sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â gosodiadau trydanol a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn yn cynnwys:

- Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau digonol ar waith i reoli'r risgiau sy'n deillio o waith trydanol
- Sicrhau bod digon o wybodaeth, cyfarwyddyd ar gael, a hyfforddiant os oes angen;
- Monitro perfformiad staff a chontractwyr
- Sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal a bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal
- Sicrhau bod archwiliadau priodol yn cael eu gwneud i asesu cyflwr gosodiadau ac offer trydanol
- Cynnal cofnodion gwasanaethu eiddo ac unrhyw ardystiad perthnasol
- Diweddarau ei hun am wybodaeth gyfredol am ofynion deddfwriaethol ac arfer gorau cyfredol
- Darparu hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant gloywi i gynnal sgiliau a rhoi cyngor ar gymhwyso'r polisi hwn fesul achos unigol.

4.5 Rheolwr Cynllunio Asedau a Buddsoddi Asedau

Bydd y Rheolwr Cynllunio Asedau a Buddsoddi Asedau yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod holl ddata asedau newydd yn cael ei fewnbynnu ar holl systemau Adra;
- Sicrhau bod yr holl asedau yn cael eu diweddarau ar holl systemau Adra yn sgil newidiadau;
- Sicrhau bod data yn cael ei wirio yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl ddata yn cyd-fynd yn holl systemau Adra;
- Tynnu sylw'r Tîm Cydymffurfio at unrhyw amryfusedd yn y data a allai effeithio ar yr amserlenni gwasanaethu / Archwiliadau Trylwyr;
- Sicrhau bod eiddo sydd ag angen gwaith uwchraddio yn cael eu hychwanegu i'r contractau i'w cyflawni yn unol â'r amserlen o fewn y polisi.

4.6 Rheolwr Cydymffurfio Asedau

Bydd y Rheolwr Asedau yn gyfrifol am:

- Drefnu a rheoli gwaith trydanol mawr brys a gosod asedau newydd;
- Sicrhau bod unrhyw osodiadau sydd wedi'u nodi fel 'Anfoddhaol' ac yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y polisi hwn;
- Sicrhau bod gan bawb a benodir i wneud gwaith gosod, trwsio neu brofi trydanol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol.
- Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y person penodedig yn cynnal ymweliad cymeradwyo â'r eiddo ac yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau i safon uchel ac yn cwrdd â'r holl feini prawf fel y nodwyd yn y rheoliadau gwifrau cyfredol. Byddant hefyd yn adolygu ac yn gwirio bob tystysgrif;
- Pan fydd yr holl waith wedi'i gymeradwyo, bydd y person penodedig yn anfon y wybodaeth at y Tîm Cydymffurfio i ddiweddarau'r system wasanaethu

4.7 Rheolwr Gweithrediadau Mecanyddol a Thrydanol

Bydd y Rheolwr Gweithrediadau Mecanyddol a Thrydanol yn gyfrifol am:

- Ymgymryd ag atgyweiriadau dydd i ddydd;
- Sicrhau bod aelodaeth o gorff ardystio achrededig UKAS (NICEIC, ECA neu Elecsa ac ati) yn gyfredol.
- Ymgymryd ag Adroddiadau Cyflwr Gosod Trydanol (EICR) mewn eiddo lle mae tenantiaid yn byw ynddyn nhw ac mewn eiddo gwag yn ôl y gofyn.
- Sicrhau bod proses ar waith sy'n sicrhau bod pob EICR yn cael ei adolygu gan y Goruchwyliwr Trydanol.
- Tynnu sylw at y gwaith sy'n ofynnol o ganlyniad i Dystysgrifau Anfoddhaol a rhoi sgôr risg ar y diffygion a nodwyd.
- Sicrhau bod gan bawb a benodir i wneud gwaith gosod, atgyweirio neu brofi trydanol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol.
- Sicrhau bod archwiliadau archwilio cyfnodol yn cael eu cynnal ar weithwyr sy'n cynnal yr archwiliadau cyfnodol, gwaith atgyweirio a gwaith ar dai gwag, ac unrhyw isgontractwyr sy'n gwneud gwaith trydanol mewn tai gwag, archwiliadau cyfnodol a gwaith trwsio.
- Sicrhau bod yr holl isgontractwyr a gweithwyr trydanol yn cael eu harchwilio ar lechyd a Diogelwch a chydymffurfiaeth cymhwysedd unigol. Bydd sgoriau perfformiad yn cael eu hadolygu at ddibenion dadansoddi tueddiadau a phan fo angen, gellir gweithredu camau fel hyfforddiant ychwanegol, goruchwilio neu uwchsgilio, a'u tracio hyd y byddant wedi'u cwblhau.

4.8 Deiliaid Contract.

Bydd y deiliaid contract yr effeithir arnynt gan osodiadau trydanol, atgyweiriadau neu brofion, yn gyfrifol am:

- Caniatáu mynediad i wiriadau diogelwch trydanol gael eu cynnal.
- Caniatáu mynediad a chytuno ar yr holl waith trydanol hanfodol sy'n ofynnol yn dilyn gwiriadau diogelwch trydanol. Ni chaniateir gwrthod gwaith o'r fath.
- Peidio â gwneud unrhyw addasiadau heb gael caniatâd ymlaen llaw fel yr amlygir yn y Polisi Addasiadau a Gwelliannau Tenantiaid.
- Adrodd am unrhyw faterion trydanol, difrod neu ddiffygion cyn gynted â phosib.

4.9 Prydleswyr

Bydd prydleswyr unrhyw eiddo neu uned fasnachol yn gyfrifol am:

- Sicrhau y ceir caniatâd ar gyfer unrhyw waith trydanol mawr a wneir yn yr eiddo neu'r uned fasnachol
- Sicrhau bod gan bawb sydd wedi'u penodi i wneud gwaith gosod, atgyweirio neu brofi trydanol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol a'u bod yn aelod o gorff ardystio achrededig UKAS (NICEIC, ECA neu Elecsa ayb.)
- Sicrhau bod y gosodiad trydanol yn cael ei brofi a'i archwilio yn unol â Nodyn Canllaw 3 IET
- Sicrhau y bydd tystysgrifau trydanol ar gael i'w gweld ar gais perchennog yr adeilad
- Sicrhau bod y gosodiad trydanol yn cael ei gynnal a'i gadw, a bod atgyweiriadau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni cywir.

5.0 DIFFINIADAU

- PERSON PENODEDIG - Bydd bob tîm sy'n rheoli gwaith trydanol angenrheidiol ar ôl cael ei adnabod gan EICR, angen Person Penodedig i reoli'r gwaith. Nid oes angen cymhwyster trydanol penodol oherwydd bod y gwaith eisoes wedi'i adnabod yn sgil gwybodaeth o'r EICR.
- PERSONAU CYMWYS - Bydd Adra yn sicrhau mai dim ond Contractwyr Trydanol cymeradwy cymwys sy'n aelodau o gorff ardystio achrededig UKAS e.e. NICEIC, ECA neu Elecsa ayb sy'n cael eu caffael a'u penodi i wneud gwaith archwilio, profi, gosod ac atgyweirio trydanol. Bydd y tîm gweithredol sydd â chyfrifoldeb am gyflawni yn gwirio'r achrediadau perthnasol am y gwaith y maent yn ei wneud.
- EICR - Adroddiad Cyflwr Arolygu Trydanol (cyfeirir hefyd at Arolygiad Cyfnodol)
- UKAS - Gwasanaeth Achrededig y Deyrnas Unedig
- NICEIC - Cyngor Arolygu Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosod Trydanol
- ECA - Cymdeithas Contractwyr Trydanol

6.0 DEDDFWRIAETH A CHANLLAW PERTHNASOL

- Deddf Tai (Cymru) 2014 (gan gynnwys System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai - HHSRS)
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd annedd i bobl fyw ynddi) (Cymru) 2022
- Rheoliadau Adeiladu Rhannau P a M
- Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989
- Rheoliadau Adeiladau, Dylunio a Rheoli 2015
- Deddf Iechyd a Diogelwch y Gweithle 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch y Gwaith 1999
- Deddf Landlord a Tenant 1985
- Rhifyn 18 o Reoliadau Gwifrau 2018:BS7671
- Nodyn Canllaw 3 y IET Archwilio a Phrofi

29/5/2024 - Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd annedd i bobl fyw ynddi) (Cymru) 2022 mewn perthynas â dogfennaeth EICR yn destun esboniad pellach gan Lywodraeth Cymru. Bydd Adra yn parhau i weithredu o fewn ein dealltwriaeth o'r gyfraith nes darperir clirder pellach.

6.1 Dogfennau Perthnasol Adra

- HSp80c - Map Proses Adroddiad Cyflwr Trydanol
- HSp82c - Map Proses Mynediad Adroddiad Cyflwr Trydanol
- HSp84c – Map Proses Diffygion wedi'u hadnabod o'r Broses Adroddiad Archwiliad Cyflwr Trydanol (EICR)
- HSp85c - Map Proses Archwilio Tystysgrif Drydanol Tŷ Gwag
- RMp55c – Ymatebol – Trwsio/Cynnal a Chadw Trydanol (Cyn Gwaith)
- HSf74c - Ffurflen Asesiad Archwiliad Trydanol
- LfP09c - Polisi Gwelliannau ac Addasiadau
- Safon Ansawdd Tai Cymru
- Safonau Gwasanaeth

7.0 ADRODD AR ADOLYGIADAU I'R BROSES HON

Bydd y Polisi Diogelwch Gosodiadau Trydanol yn cael ei adolygu bob 2 flynedd neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisiau perthnasol Adra.

Rhifyn	Dyddiad	Sylwadau (Beth sydd wedi'i adolygu?)	Ysgrifennwyd gan	Cymeradwyo ar gyfer cynnwys
0	01/05/20	Rhifyn Cyntaf	GR	MR
1	27/07/20	Polisi wedi'i ddiweddarau yn 4.3 'Cyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd' wedi newid i 'Dirprwy Brif Weithredwr	GR	ITJ
2	01/07/21	Adran 4 wedi'i ddiweddarau yn sgil Strategaeth Rheoli Asedau newydd	GR	ITJ
3	01/12/22	Newid yn unol â gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016	FFO	GR
4	04/06/24	Newidiadau yn sgil RWHA i ddal yn llawn gofynion o dan y Rheoliadau ynghylch EICR / cadarnhad ysgrifenedig o waith Rhai newidiadau yn yr adran 'Cyfrifoldebau' hefyd i adlewyrchu strwythur / swyddi wedi'i ddiweddarau.	IR	IR

8.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Adra yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn cwmpas ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun. Mae wedi ymrwymo i ddileu anghydraddoldeb a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth ac felly yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldebau ar gyfer unrhyw aelod o staff beth bynnag yw eu rhywedd, lliw, tarddiad ethnig, cred neu anabledd. Bydd angen rhoi ystyriaeth i anghenion unigol ac a yw'r unigolyn yn agored i niwed fel trefn arferol wrth ystyried anghydraddoldebau posib. Cafodd y polisi hwn ei asesu ac mae'r asesiad cychwynnol wedi dod i'r casgliad nad yw'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Mae Adra yn cydnabod bod sefydliad amrywiol sy'n gallu darparu gwasanaethau ar gyfer gwahanol anghenion cwsmeriaid, yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn fwy effeithiol gan fod gwasanaethau wedi'u cynllunio'n briodol ar gyfer ei ddefnyddwyr ac felly'n fwy cost effeithiol.

Mae'n bolisi gan Adra y bydd pawb yn cael cyfle cyfartal ac na fydd unrhyw berson na grŵp, sydd eisiau ein gwasanaethau neu'n ceisio am swydd neu ddyrchafiad, dan anfantais.

Mae Adra wedi ymrwymo i werthoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn galluogi ein staff, tenantiaid, Aelodau'r Bwrdd a'n partneriaid i gyflawni eu potensial. Ein nod hefyd yw creu sefydliad cynhwysol a chymunedau rydyn ni'n gweithio ynddynt.

9.0 DIOGELU DATA

Fel rhan o'i ddatblygiad, mae'r ddogfen hon a'i heffaith ar breifatrwydd data wedi cael ei asesu drwy Sgrinio Diogelu Data a bydd gweithrediadau yn cael eu rhoi ar waith fel bo'n briodol. Bydd unrhyw ddata sydd wedi'i gasglu ar gyfer y polisi hwn yn cael ei drin yn deg ac yn gyfrinachol.

10. CWYNIION

- 10.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i gyflwyno cwyn mewn cysylltiad â'r ymarfer o'r polisi hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei thrin o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon.
- 10.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

11. ADOLYGU PENDERFYNIADAU

- 11.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin yn dilyn ein proses Adolygu Penderfyniad - CCp04c.
- 11.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.